*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 140 (Cy. 6 )

# PLANT A PHERSONAU IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Diwygio Cartrefi Plant (Cymru) 2001

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *23 Ionawr 2001* |
| *Yn dod i rym* | - - | *28 Chwefror 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 63(3) o Ddeddf Plant 1989(**1**) ac sy'n arferadwy ganddo bellach mewn perthynas â Chymru(**2**).

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diwygio Cartrefi Plant (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 28 Chwefror 2001.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Plant 1989.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

**Diwygio Rheoliadau Cartrefi Plant 1991**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Cartrefi Plant 1991(**3**) drwy fewnosod y rheoliad canlynol ar ôl rheoliad 3A—

"**Exemption from registration as a children's home**

**3B.**—(1) Subject to section 63(12) and Schedule 7 to the Act (Foster parents: limits on number of foster children), any home in which a child is cared for and accommodated by a person who—

(a) is a local authority foster parent in relation to the child; or

(b) is a foster parent with whom the child has been placed by a voluntary organisation; or

(c) fosters the child privately,

(**1**) 1989 p.41.

(**2**) Yn gyffredin â holl swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan y Ddeddf i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru trosglwyddwyd y pŵer hwn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; gweler Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Mewn perthynas â Lloegr mae'r pŵer er yn arferadwy o hyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

(**3**) O.S. 1991 Rhif 1506. Yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 1993 Rhif 3069.

is so far as the provision of care and accommodation for that child is concerned, exempt from the definition of a "children's home" in section 63(3) of the Act."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**).

*D. Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

23 Ionawr 2001

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cartrefi Plant 1991 mewn perthynas â Chymru o ganlyniad i ddwyn i rym, hefyd ar 28 Chwefror 2001, adran 40 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (2000 p.14). Mae adran 40 yn diwygio adran 63(3)(a) o Ddeddf Plant 1989 er mwyn ei gwneud yn ofynnol i gartrefi plant sy'n cael eu rhedeg yn breifat ac sy'n lletya a gofalu am lai na phedwar o blant i gael eu cofrestru gyda'r awdurdod lleol y lleolir hwy yn ei ardal yn yr un modd â chartrefi mwy i blant. Effaith y Rheoliadau hyn, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau presennol ar berson sy'n maethu mwy na thri o blant, yw esemptio cartrefi y caiff plant eu lletya ynddynt fel plant maeth o'r gofyniad i gofrestru fel cartref plant.